Rheolaeth

Meddyliwch Amdani

Ionawr 2007

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Gwneud iechyd yn fusnes i chi

Yn ôl arolwg diweddar gan y cwmni yswiriant 'More Than Business', cafwyd bod cyfran fawr o weithwyr Prydain yn rhoi eu swyddi uwchlaw eu hiechyd. Yn wir, cyfaddefodd 44% ohonyn nhw eu bod wedi canslo apwyntiad â'r meddyg oherwydd ymrwymiadau gwaith.

Fyddwch chi, fel rheolwr, yn rhoi pwysau'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar staff i gyfaddawdu eu hiechyd er mwyn cyflawni targedau gwaith – efallai trwy ganiatáu iddyn nhw aros yn y gwaith ar ôl iddyn nhw gwyno nad ydyn nhw'n teimlo'n dda, neu eu hannog i aros? Ydych chi wedi ystyried yr effaith hirdymor y gallai'r diwylliant 'brwydro ymlaen' yma ei chael ar y busnes? Fe allai fod yn niweidiol iawn.

Cyfrinachau cyflogau

Yn ôl y Centre for Economic and Business Research, disgwylir y bydd gweithwyr yn y sector ariannol yn Ninas Llundain yn derbyn taliadau bonws o £23,000 ar gyfartaledd eleni. Fodd bynnag, gallai rhai ohonyn nhw gael cymaint â £1 miliwn mewn taliadau ychwanegol.

Efallai nad yw'ch gweithwyr chi ar y brig o ran cyflogau, ond sut ydych chi'n trin mater gwahanol daliadau teilyngdod i wahanol bobl? Sut allwch chi sicrhau bod eich staff yn gwbl ochelgar ynghylch y gwobrau a gânt, er mwyn osgoi eiddigedd niweidiol ymhlith cydweithwyr? Neu a ddylai'r system gyfan sy'n ymwneud â chyflogau a thaliadau bonws fod yn agored ac yn dryloyw?

Bathodyn hunaniaeth ynteu arwydd o anghydfod?

Un tro, gwnaeth yr awdur a'r dramodydd George Bernard Shaw y sylw: "Y broblem fwyaf gyda chyfathrebu yw'r rhith ei fod wedi'i gyflawni."

Pan fyddwch chi'n cyfleu neges i'ch tîm, sut fyddwch chi'n sicrhau bod yr hyn rydych chi am ei fynegi wedi'i dderbyn a'i ddeall? Ydych chi weithiau'n euog o gymryd yn ganiataol bod sgwrs sydyn â'r tîm neu e-bost gron yn cyflawni'n llawn eich amcanion wrth gyfathrebu?

Cadw ci a chyfarth eich hunan

Yn ôl yr awdur busnes Richard Templar yn "The Rules of Management," nid oes angen i reolwyr allu cyflawni gwaith aelodau unigol o'r tîm, ddim mwy na bod angen iddyn nhw allu brathu byrgleriaid i ddeall yr hyn a wna cŵn gwarchod.

Ydych chi'n gwastraffu amser yn ceisio dysgu gormod am rolau staff unigol ar eich tîm, pan ddylech chi ganolbwyntio mwy ar sut i ysgogi'r aelodau tîm hynny i gyflawni'r gwaith gorau bosibl? Sut allwch chi farnu a oes gennych chi ddigon o wybodaeth ynghylch pob rôl er mwyn parhau i reoli'r tîm?

Gwefannau Rheolaeth

(O gylchlythyr Llygad Busnes): Bydd micro-fusnesau'n cael help llaw ar faterion rheoli ac arwain ar ôl lansio gwasanaeth cynghori newydd rhad ac am ddim. Lansiwyd gwefan Solutions4Business gan y Rhwydwaith Sgiliau i Fusnes, oherwydd eu bod yn honni bod micro-fusnesau (sy'n cyflogi 4 o bobl neu lai), yn aml yn methu â manteisio ar hyfforddiant rheoli ac arwain confensiynol. I gael mwy o wybodaeth ewch i: http://www.businesseye.org.uk/530244.html

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth